

Taflen Wybodaeth

Cyflwyniad

Mae angen dosio (drensió) gwartheg a defaid am nifer o resymau. Gellir rhoi dos er mwyn atal, iachau neu liniaru (a'u gwneud i deimlo'n well). Mae'n hanfodol defnyddio'r dechneg gywir i osgoi:

- i. Heintiad posibl oherwydd niwed i gefn y llwnc
- ii. Niwmonia mewnanadliad (hylif yn yr ysgyfaint)

Mathau o Ddosiau

- Anthelmintigau/llynghyrwyr
- Antibiotigau mewn toddiant e.e. tabledi ysgothi lloeau
- Mwynau - elfennau hybrin
- Toddiant electrolyt geneuol
- Iachael e.e. ar gyfer chwyddwynt y boten fawr neu asidosis

Anthelmintigau yw'r prif grŵp o feddyginiaethau a ddefnyddir i ddosio ar ffermydd yn y DU.

Mae'r rhain yn trin ac atal parasitiaid mewnol.

Anthelmintigau neu Llynghyrwyr

Mae'r holl Llynghyrwyr yn perthyn i un o dri theulu o llynghyrwyr:

- Y Bensimidazolau (llynghyrwyr gwyn)
- Y Lefamisolau (llynghyrwyr melyn)
- Y Lactonau Macrocylic (y teulu mectin - dosio neu bigiad).

Canllawiau ar gyfer Dosio

- Rhaid i chi wybod pwysau'r anifail sydd i'w ddosio
- Defnyddiwch y llynghyrydd cywir
- Dosiwch dim ond os oes llyngyr yn bresennol
- Gwiriwch fod y dryll/gwn dosio'n cyflenwi'r dos angenrheidiol
- Dosiwch i mewn i'r oesoffagws ac nid i'r geg fel bod y llynghyrydd yn mynd i mewn i'r rwmn ac nid yn uniongyrchol i'r abomaswm neu'r stumog go iawn
- Cyfyngwch ar y bwydo adeg y dosio
- Mae atal bwydo am 24 awr oddeutu'r dosio'n cynyddu gweithgaredd llynghyrwyr *BZ* ac *ML* - lladd mwy effeithiol
- Monitwch nifer yr wyau mewn carthion er mwyn optimeiddio amseriad rhoi'r llynghyrydd a'i effaith lladd.

SCOPS (Rheoli Parasitiaid ar Ddefaid mewn Ffordd Gynaliadwy)

Mae'r fenter *SCOPS* (cydlynir gan *HCC* yng Nghymru) yn darparu cyngor technegol ar anthelmintigau priodol, drensió cwarantín, cyfrif yr wyau mewn carthion (*FEC*) a rheolaeth pori. Y nod yw perswadio ffermwyr i newid eu harferion llynghyrydd er mwyn arafu cyfradd cynnydd ymwrthedd.